Y Digartref

Darllen: 2 Corinthiaid 5:8

Y mae'r reddf i fynd adref yn gryf iawn ymhlith pobl ac anifeiliaid. Wedi bod ar wyliau, mor braf yw troi trwyn y car tuag adref. Dychwelyd i Gymru wna'r adar mudol bob gwanwyn i godi nyth a magu teulu, ac maen nhw'n dweud fod rhai rhywogaethau o loŷnnod byw yn mudo i gynefin eu magwraeth. Mae stori am gi defaid ifanc a gafodd ei brynu gan ffermwr oedd yn byw ugain milltir o'r fferm lle magwyd y ci. Un diwrnod, aeth yr hen gi bach ar goll ac ymhen tridiau cafodd y perchennog newydd alwad ffôn i ddweud fod y ci wedi cyrraedd yn ôl i'w hen gartref. Y dyhead i fynd adref.

Ac felly mae hi yn hanes y ddynolryw. Mae yna bethau a sefyllfaoedd na fedr ein plesio na'n diwallu. O hyd ac o hyd fe welwn ni fan gwyn fan draw. 'Os' ydi hi o hyd. 'Os enillwn y loteri, mi fydd pethau'n iawn.' 'Os cawn ni'r swydd yr ydym yn ei chwennych mi fyddwn yn hapus.' Arian, safle yn y gymdeithas, enwogrwydd - dyma'r pethau rydym yn eu chwennych. Dyna'r natur ddynol, meddwch; felly bu hi ym mhob oes. Digon gwir. Ond o gael arian mawr ac ennill enwogrwydd, beth sy'n digwydd wedyn? Sawl tro clywsoch chi am bobl yn ennill ffortiwn ac yn methu dygymod â'u bywydau wedyn, a hyd yn oed yn gorffen trwy golli'r cyfan? I lawer, mae arian y loteri wedi gwneud mwy o ddrwg nag o les. A beth mae enwogrwydd wedi'i wneud? Mae cymaint o'n henwogion wedi troi at bob math o ddrygau, a'u bywydau'n llawn o gymhlethdodau. Onid yw hyn i gyd yn tystio i'r ffaith bod yna ryw ddyhead pellach a dyfnach am rywbeth na fedr y byd hwn ei roi? Er ein bod yn byw ar y blaned hon, dydyn ni ddim yn perthyn iddi rywsut gan nad ydi'r byd na'i bethau'n gallu diwallu ein hanghenion dyfnaf.

Felly, mae'n rhaid gofyn a oes yna ryw ddyhead, neu ryw hiraeth am ddimensiwn arall? Yn aml iawn, mae dyn yn gwrthod derbyn bod hynny'n wir, ac eto mae'r dyhead hwn yn real. Mae yna hen chwedl Aeleg am

frenin y tanfor yn darganfod plentyn bach yn eigion y môr. Llwyddodd y brenin i fagu'r plentyn yn nyfroedd y môr, ond o dipyn i beth roedd galwad arall ar fywyd y plentyn – galwad y tir. Gadawodd y plentyn ddyfroedd y môr a nofio i'r lan. Ond wrth iddo fynd, fe daflodd y brenin lond llaw o halen i'w geg a dweud, 'Wedi iddo dyfu, mi fydd hiraeth arno am y môr, a bydd galwad y môr yn llenwi'i fywyd; ac mi ddaw'n ôl ataf ryw ddydd i eigion y dyfroedd'. Mae sancteiddrwydd Duw yn ein neilltuo ninnau ac yn ein gwahanu ninnau i fod yn blant iddo. Wrth i ni gael ein neilltuo gan Dduw, bydd apêlarian, statws ac enwogrwydd yn diflannu, a bydd egwyddorion teyrnas Dduw yn dod i'r amlwg – addfwynder, purdeb a chariad. Mae Duw wedi rhoi rhyw hiraeth yn ein calonnau amdano ef ei hun. Mae'r sant yn 'cartrefu yn yr Arglwydd'. Dieithryn a phererin ydi'r sant am ei fod wedi cael ei alw i waith arbennig. Nid meistroli cyfres o ddeddfau moesol er mwyn tyfu mewn daioni a pharchusrwydd a wna'r Cristion, ond yn hytrach ymorffwys yng nghariad Iesu. Mae perthynas gyson â Duw yn hanfodol.

Myfyrdod pellach:

Ydych chi'n cael y teimlad nad ydych yn perthyn i'r byd hwn?

Sut mae'r syniad o 'gartrefu yn yr Arglwydd' yn apelio atoch chi?